

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Wyn Jones

Gwysir Cyngorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn

Nos Fawrth, 6/7/21 am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd Bentref

Bydd angen cadw at y rheolau Covid – cadw pellter, gwisgo mwgwd, dod mewn ac allan bob yn un (trwy'r drws ffrynt)

Cyhoedd: Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor: *cysyllter â'r Clerc*
Darperir cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda –
gweler y Rheolau ar y wefan, neu cysyllter gyda'r Clerc

Agenda:

2251 Croeso a sylwadau'r Cadeirydd

2252 Derbyn Ymddiheuriadau

2253 Derbyn datganiadau o fuddiant

2254 Ystyried cywirdeb Cofnodion 1/6/2021 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig 22/6/21

2255 Materion y Clerc:

2250 iv Adroddiad o gyfarfod ynglŷn â mynediad i Garth Bach

2250 ix Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid

Dymuniad Cyngor Cymuned Llangywer i gyd-weithio

2256 Adroddiad Cyngor Gwynedd – Cyngorydd Alan Jones Evan

2257 Adroddiadau Is-bwyllgorau

- i. Cynllun Ardal: Huw Antur - Cyflwyniad
- ii. Cyfleusterau: Dewi Wyn Jones
- iii. Y Fynwent: Alwyn Roberts

2258 Adroddiadau Cyngorwyr:

- i. Gaiman: Beryl Hughes Griffiths .
- ii. Cyflwr asedau: Cyngorwyr

2259 Materion lleol Cyngorwyr:

2260 Materion ariannol:

- i. Y sefyllfa ariannol: Bethan Edwards
- ii. Derbyniadau a thaliadau

2261 Partneriaeth Penllyn – Adroddiad Huw Antur a Beryl Hughes Griffiths

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Wyn Jones

2262 Ceisiadau Cynllunio:

- i. **NP5/71/78B** Cefn yr Odyn, Llanuwchllyn. LL23 7TL Adeiladu estyniad ochr i'w ddefnyddio fel anecs
- ii. **NP5/71/473B** Trosi a newid defnydd cyn siop i ffurfio estyniad i'r annedd cyffiniol ynghyd ac adeiladu estyniad cefn i gysylltu ag adeilad allanol presennol (Ail-gyflwyniad) Bronant Stores / Garn, Llanuwchllyn. LL23 7TP
- iii. **NP5/71/LU481** Cais am Dystysgrif Ddefnydd Cyfreithiol (Defnydd Presennol) ar gyfer defnyddio carafán statig ar dir nesaf i annedd-dy fel anecs, a chwrtil estynedig Deildre Isaf, Llanuwchllyn. LL23 7TB

2263 Gohebiaeth: Ystyried Gohebiaeth (E-bostiwyd):

- i. Neges Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu sylwadau ar reolaeth coedwigaeth
- ii. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gymwysterau proffesiynol Clercod
- iii. Cyngor Tref Nefyn: cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ar Bolisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- iv. Cyngor Cymuned Pistyll: delio gyda phroblemau parcio dros nos

Cadarnhau dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/9/21 Zoom neu Neuadd Bentref yn ddibynnol ar amgylchiadau Covid.